# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN,<br>20 MEDI, 2021am 2.00 o'r gloch yp** | **Monday,<br>20 September 2021at 2.00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| **Swyddog Pwyllgor    Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gasglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganid o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 15 Mehefin, 2021;
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 28 Mehefin, 2021.

**4 BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU : ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTER 1 - 2021/2022** (Tudalennau 17 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**5 ADRODDIAD CYNNYDD PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION** (Tudalennau 43 - 50)

Cyflwyno adroddiad cynnydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 51 - 58)

Cyflwyno Blaen Raglen Waith.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret M Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio gyda chyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Arweinydd y Cyngor – y Cynghorydd Llinos M Huws<br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys yng Nghymru |

---

Roedd y Cadeirydd yn dymuno llongyfarch y rhai hynny a oedd wedi cael eu hethol yn aelodau o'r Senedd yn ystod etholiad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, ac yn arbennig merch y Cynghorydd Vaughan Hughes, Ms Heledd Fychan, AS.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Trefor Ll Hughes MBE ei fod yn aelod o'r Cyngor Iechyd Cymunedol.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn yn gywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021.

## 4 CYFLWYNIAD GAN BRIF WEITHREDWR BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Croesawodd y Cadeirydd Ms Jo Whitehead, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor.

Diolchodd Ms Whitehead i'r Pwyllgor am ei gwahodd i'r cyfarfod. Rhoddodd grynodeb byr o'r cefndir mewn perthynas â rhoi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn mesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru yn 2015, hyd at fis Tachwedd 2020; yn dilyn adolygiad annibynnol gan y rheoleiddwyr, symudwyd y Bwrdd Iechyd i dderbyn ymyriad wedi'i dargedu. Dywedodd bod pedwar thema gyffredinol wedi cael eu nodi i'r Bwrdd Iechyd eu gwella dros gyfnod o amser, sef:-

- Darpariaeth gwasanaeth Iechyd Meddwl (gwasanaethau oedolion a phlant)
- Cyfeiriad strategol (cynllunio a pherfformiad)
- Arweinyddiaeth (y gallu i drawsnewid gwasanaeth a diwylliant y Bwrdd)
- Ymgysylltu (ymgysylltu â phobl Gogledd Cymru, cleifion, staff a sefydliadau partner)

Oherwydd bod gan Lywodraeth Cymru brofiad o ymyriad wedi'i dargedu mewn Byrddau Iechyd, ymgorfforir 'matrics aeddfedrwydd' yn y dangosyddion gwella a'r hunanarfarniad. Mae sicrhau ansawdd yn thema ar draws y 'matrics aeddfedrwydd' ac mae'n berthnasol i'r pedwar thema gyffredinol a nodwyd uchod. Mae'r 'matrics aeddfedrwydd' yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd benderfynu ar lefel eu perfformiad, ar raddfa o 0 i 5, mewn perthynas â phrofiad y claf, y gallu i ymateb i'r pandemig covid (profi ac olrhain), brechu, gofal i gleifion a chymorth i gleifion sy'n dioddef o covid hir), amseroedd aros am driniaeth, gofal nas cynlluniwyd (apwyntiadau brys), gwasanaethau iechyd meddwl, a chynaliadwyedd gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Mae'n bwysig gallu cynnal y tri phrif safle, sef Ysbyty Gwynedd, Glan Clwyd a Wrecsam Maelor, gan fod y Bwrdd yn wynebu problemau o ran recriwtio a chadw staff. Bydd dull 'Cryfach Gyda'n Gilydd' yn cael ei fabwysiadu, sy'n golygu ymgysylltu â staff y Bwrdd Iechyd er mwyn canfod pa heriau y mae staff yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Cyfeiriodd Ms Jo Whitehead at y 'matrics aeddfedrwydd' eto a sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi sgôr i'w berfformiad ar raddfa o 0 i 5. Nododd fod y Bwrdd wedi rhoi sgôr gwella o 1 oherwydd yr ystyrir ei fod yn perfformio'n 'dda yn rhannol' ond bod angen gwneud mwy o waith i wella'r gwasanaethau a gynigir, a bod hynny'n wir am bedwar nod cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Ychwanegodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bod sefydliadau partner annibynnol o'r farn bod angen gwneud mwy o waith mewn perthynas â sefydlogrwydd Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Bwrdd iechyd, caniatáu i staff godi pryderon mewn modd tryloyw, a bod y Bwrdd yn cael ei arwain yn glinigol.

Cyfeiriodd hefyd at ofal iechyd meddwl ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a phontio o wasanaethau pediatrig i Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion ac i Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, ynghyd â gwasanaethau ataliol ym maes Iechyd Meddwl. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod angen gwneud gwaith sylweddol i wella perfformiad y gwasanaethau hyn. Mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn holl bwysig h.y. Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol, Addysg a'r trydydd sector.

Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor ofyn cwestiynau ynghylch yr uchod:-

- Fel Pencampwr Pobl Hŷn yr Awdurdod, cyfeiriodd y Cynghorydd R Ll Jones at bryderon mai dim ond unwaith yr wythnos y mae seiciatrydd yn ymweld â chleifion dros 65 oed ar y ward seiciatreg, ond bod seiciatrydd ar gael bob dydd ar gyfer pobl dan 65 oed. Dywedodd hefyd fod tu allan i'r uned seiciatrig yn flêr.

  Dywedodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei bod yn derbyn y sylwadau ynghylch ymweliadau unwaith yr wythnos gan y Seiciatrydd ac y byddai'n edrych i mewn i'r mater, yn ogystal â'r sylwadau bod tu allan yr uned yn flêr.

- Cyfeiriwyd at y pedwar maes gwella cyffredinol a nodwyd a gofynnwyd ai'r meysydd hyn a nodwyd fel y meysydd gwasanaeth sydd â'r perfformiad gwaelaf o fewn y Bwrdd Iechyd ac ai'r Bwrdd Iechyd neu Lywodraeth Cymru oedd wedi nodi'r 4 maes fel rhai yr oedd angen eu gwella? Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch a oedd y matrics sgorio yn addas ar gyfer herio perfformiad y gwasanaethau a ddarperir ac a oes angen defnyddio asesiadau cymheiriaid wrth asesu'r gwasanaeth?

  Dywedodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr bod y 4 maes a nodwyd/meysydd gwan oedd angen eu gwella wedi cael eu hamlygu gan Lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, sef sefydliadau annibynnol a fu'n monitro gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Roedd Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd yn cynghori'r Gweinidog Iechyd mewn perthynas â symud y Bwrdd Iechyd o fesurau arbennig i ymyriad wedi'i dargedu ym mis Tachwedd 2020, a bydd yn parhau i fonitro'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y matrics aeddfedrwydd. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o benodi sefydliad trydydd parti annibynnol a fydd hefyd yn darparu asesiadau cynnydd i'r Bwrdd er mwyn i'r Bwrdd Iechyd fuddsoddi, yn ôl yr angen, i wella gwasanaethau ar gyfer pobl Gogledd Cymru mewn perthynas â gofal iechyd yn y dyfodol a'r oedi yn y llawdriniaethau oherwydd y pandemig covid.

- Gofynnwyd a oedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwella ei weithdrefnau TG mewn perthynas â nodiadau cleifion.

  Dywedodd Prif Weithredwr Betsi Cadwaladr bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried ei ddarpariaethau digidol er mwyn gwella gwasanaethau a buddsoddi mewn technoleg addas ar gyfer staff ac er budd gofal i gleifion.

- Nodwyd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am gyfran fawr o'r boblogaeth ac am ardaloedd daearyddol mawr; gofynnwyd a fyddai'n briodol rhannu'r Bwrdd Iechyd yn isadrannau llai.

  Dywedodd Prif Weithredwr Betsi Cadwaladr mai'r Bwrdd Iechyd yw'r mwyaf yng Nghymru a'i fod ymhlith y mwyaf yn y DU. Dywedodd bod rhaid i'r Bwrdd ystyried y gwasanaethau clinigol a gynigir yn Lloegr ar hyn o bryd a chynnig gwasanaethau o'r fath yng Ngogledd Cymru. Roedd yn derbyn bod gofal

personol i gleifion hefyd yn bwysig i'r unigolyn yn ogystal â gwneud yn siŵr bod darpariaeth gofal iechyd ar gael yn lleol i ddarparu gofal i gleifion. Ychwanegodd fod denu'r Ysgol Gwyddorau Meddygol i Ogledd Cymru'n holl bwysig fel bod myfyrwyr lleol yn gallu astudio yn eu hardal leol ac o bosib ymgeisio am swyddi gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ôl cymhwyso.

- Holwyd am waith partneriaeth gyda sefydliadau allanol a'r gwelliannau sydd eu hangen yn y ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

  Dywedodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei bod yn ystyried bod perthynas waith da yn bodoli rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y Bwrdd a'r awdurdod lleol yn gallu herio ei gilydd ynghylch gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, ac yn benodol, ynghylch dyletswyddau statudol a chyfyngiadau ariannol. Yn ystod y pandemig, roedd angen gwneud newidiadau mewn perthynas â'r gwasanaethau yr oedd y Bwrdd yn eu darparu mewn partneriaeth â sefydliadau partner megis yr awdurdod lleol.

- Wrth i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar wella a chael ei dynnu o fesurau arbennig, gofynnwyd a oes diffyg canolbwyntio ar gleifion tra bod pobl yn disgwyl am lawdriniaeth a chleifion sydd â chanser.

  Cyfeiriodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr at yr heriau yn ystod y pandemig covid a gorfod cynnal ymgynghoriadau rhithwir, ac ar hyn o bryd mae 42,000 o gleifion yn disgwyl am lawdriniaeth. Nododd bod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru i gynyddu capasiti staffio'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Ar hyn o bryd, perfformiad y Bwrdd Iechyd yw'r gorau yng Nghymru o ran trin cleifion sydd â chanser.

- Cyfeiriwyd at broblemau recriwtio meddygon teulu ar gyfer meddygfeydd yng Nghaergybi a phryderon cleifion oherwydd diffyg cyfathrebu rhwng y Bwrdd Iechyd a chleifion y ddwy feddygfa yng Nghaergybi. Fodd bynnag, deallir bod dau feddyg teulu rhan amser wedi cael eu penodi i gychwyn ym mis Awst ac y bydd meddyg teulu llawn amser arall yn cychwyn gweithio yn Hwb Iechyd Cybi ym mis Ionawr. Serch hynny, mynegwyd pryderon ei bod wedi cymryd dwy flynedd i benodi meddygon i'r swyddi hyn. Nodwyd hefyd bod Ysbyty Penrhos Stanley yn wynebu problemau o ran recriwtio staff nyrsio a bod cynorthwywyr gofal iechyd yn gorfod ymgymryd â dyletswyddau staff nyrsio cymwys. Yn ogystal, mae prinder o Gynorthwywyr Gofal i gynorthwyo cleifion yn eu cartrefi eu hunain.

  Dywedodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei bod yn ymwybodol fod cleifion yn disgwyl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ond bod diffyg cyfleusterau gofal ar gyfer cleifion yn y gymuned ac ar gyfer adsefydlu. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ffyrdd o annog staff sy'n gweithio mewn ysbytai cymunedol, a chynorthwywyr gofal hefyd, i ymgeisio am gynlluniau cadetiaid a phrentisiaethau er mwyn datblygu eu gyrfaoedd nyrsio. Ychwanegodd fod problem genedlaethol o ran recriwtio a chadw meddygon teulu a staff clinigol.

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R IAITH GYMRAEG 2020/21

Cyflwynwyd – yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2020/21 sydd yn ofyn statudol yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith Gymraeg a gyflwynwyd o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg, adroddodd Arweinydd y Cyngor y cynhaliwyd ymarfer 'siopwr cudd' gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â safonau iaith Gymraeg yr Awdurdod. Roedd y canlyniad yn un cadarnhaol ac nid oedd unrhyw faterion yn codi yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Roedd yn dymuno diolch i'r staff a Fforwm Iaith Gymraeg y Cyngor a Chadeirydd Annibynnol y Fforwm am eu hymrwymiad i ddatblygu'r iaith Gymraeg yn yr Awdurdod. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y rhaglen ARFer sydd wedi'i thargedu'n benodol i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle, mewn busnesau ac yn y gymuned. Ychwanegodd bod y pandemig wedi bod yn heriol ac y bu'n rhaid i'r Cyngor newid dulliau gweithio ac addasu'r cyfleoedd a gynigir i staff ddysgu'r iaith Gymraeg.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod 154 o safonau Iaith Gymraeg. Roedd y Cyngor eisoes yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r Safonau a osodwyd arno drwy weithredu ei Gynllun Iaith, ac roedd y cynllun hwn yn mynd tu hwnt i'r Safonau Iaith mewn sawl maes. Mae adran 4 y Safonau Iaith Gymraeg yn cyfeirio at hunanreoleiddio a'r camau gweithredol sydd ar waith gan y Cyngor sy'n sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael lle haeddiannol yn yr Awdurdod. Nododd, er bod yr adroddiad yn un cadarnhaol, y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau yn y dyfodol gan fod mwy o bwyslais ar ddefnyddio technoleg a bydd angen hyfforddi a datblygu staff ymhellach, yn arbennig gan mai ychydig o gyswllt wyneb yn wyneb a geir oherwydd y pandemig. Dywedodd hefyd y bu'r Swyddog Iaith yn cefnogi tri gwasanaeth o fewn y Cyngor i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac y rhoddir pwyslais pellach ar gefnogi gwasanaethau rheng flaen eraill. Bydd gofynion ychwanegol ar y Cyngor mewn perthynas â ffrydio cyfarfodydd yn fyw gan roi pwysau ar y gwasanaeth cyfieithu i ddarparu gwasanaeth mewn cyfarfodydd rhithwir.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, gan wneud y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Gofynnwyd a oes unrhyw ddata ychwanegol a fyddai'n ychwanegu gwerth at yr Adroddiad Blynyddol.

  Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi gosod targed mewn perthynas â nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys ac y bydd yn ddiddorol gweld canlyniad cyfrifiad 2021 pan fydd ar gael mewn ychydig o fisoedd. Bydd angen edrych ar ganlyniad y cyfrifiad hefyd o safbwynt gwahanol gymunedau a faint o bobl sy'n siarad Cymraeg ym mhob ardal. Ychwanegodd bod yr Awdurdod wedi mabwysiadu fformiwla lefel sgiliau mewn perthynas â defnyddio'r iaith Gymraeg wrth hysbysebu swyddi gwag; mae angen sgiliau llafar yn hytrach na sgiliau ysgrifenedig ar gyfer rhai swyddi.

- Dywedodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig hyrwyddo’r iaith ac amlygu’r llwybrau gyrfa posib yn y dyfodol yn ysgolion yr Ynys a’r coleg; bydd hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y Cyngor ac mewn busnesau eraill ar yr Ynys yn caniatáu i bobl ifanc aros yn eu cymunedau lleol.

  Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno bod angen i’r Awdurdod hyrwyddo’r ffaith fod y Cyngor yn cynnig cyfleoedd a llwybrau gyrfa da o bobl ifanc. Nododd fod cynrychiolwyr o’r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymweld â Phrifysgol Bangor a bod cwrs rhagorol yno ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol.

  Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y cynllun ‘Denu Talent’ sy’n cynnig gwaith dros yr haf yn y Cyngor i bobl ifanc; bydd cynllun hyfforddeion yn cael ei gynnig maes o law hefyd. Nododd y Prif Weithredwr nad oedd modd cynnal y cynllun ‘Denu Talent’ eleni oherwydd y pandemig, ond roedd yn rhagweld y byddai modd ei gynnig y flwyddyn nesaf.

  **PENDERFYNWYD cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol ar y Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer 2020/21.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o’r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22;**
- **Nodi’r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu’r flaen raglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar yr 28ain o Fehefin 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret Murley Roberts.<br><br>Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Llinos M Huws<br>Cynghorydd Carwyn Jones – Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 3),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr R Ll Jones a Nicola Roberts. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms Catrin Roberts - Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (ar gyfer eitem 3);<br>Ms Nonn Hughes - Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (ar gyfer eitem 4):<br>Ms Alwen Williams a Mr Hedd Williams - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (eitem 5). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL: BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU (RHAN 9: GWASANAETHAU IECHYD A CHYMDEITHASOL) 2020/21**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â’r uchod.
Dywedodd Arweinydd y Cyngor a’r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod hi’n ofynnol o fewn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(Cymru) 2014 fod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, cyhoeddi a chyflwyno eu Hadroddiad Blynyddol i Lywodraeth Cymru. Mae’r Ddeddf yn ei gwneud hi’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio gyda’i bartneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth, gofalwyr a phlant. Mae’n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gyd-weithio a, ac i ddarparu gwybodaeth i’r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaeth gofal cymdeithasol. Esboniodd tra bod yr Awdurdod yn cyfrannu oddi fewn i’r Bwrdd Partneriaeth, mae hefyd yn cymryd mantais o’r cyfleoedd sydd wedi dod yn sgil y Bwrdd.

Fe wnaeth y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol adrodd fod y Bwrdd Partneriaeth wedi parhau i gwrdd yn fisol, er bod y pandemig wedi effeithio ar brosiectau’r Bwrdd. Mae’r Bwrdd yn parhau i adolygu’r prif egwyddorion o fewn y Ddeddf ac yn sicrhau fod blaenoriaethau’r Bwrdd yn gynaliadwy ac yn cwrdd â'r gofyniad mewn perthynas â gofal a chefnogaeth ar gyfer plant ac oedolion. Nododd mai pwrpas Rhan 9 o’r Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, ynghyd a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth y gwasanaeth. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chefnogaeth, gan sicrhau fod gan bobl fwy o lais a rheolaeth;
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles;
- Darparu gofal a chefnogaeth gydlynol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Dywedodd Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllaw Statudol Rhan 9 wedi’i ddiweddaru yn Ionawr 2020 ac mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweithio yn unol â’r Canllaw hwn. Mae’r prif newidiadau yn ymwneud ag aelodaeth ychwanegol, ffocws ychwanegol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc a ffocws bellach ar integreiddio gwasanaethau. Cyfeiriodd at y gwaith peilot wedi’i ymgymryd gan Gyngor Sir Ynys Môn o ran y ‘gyllideb gyfun’ ac mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r prosiect am ei fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyntaf yng Nghymru i gyflwyno’r cynllun ‘cyllideb gyfun’ yn llwyddiannus; disgwylir i Lywodraeth Cymru gyflwyno’r cynllun ‘cyllideb gyfun’ i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill fel arfer da. Mae cyfanswm o £3.4m wedi ei dod o gyllid ICF tuag at ariannu 40 prosiect at yr Ynys.

Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried yr adroddiad a gwneud y pwyntiau canlynol :-

- Codwyd cwestiynau ynghylch lleoliad y 40 prosiect sydd wedi derbyn cyllid ICF ar yr Ynys. Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y darperir y prosiectau ar draws yr Ynys yn ddibynnol ar anghenion penodol e.e. Cartrefi Clyd sydd wedi eu lleoli ble mae adeiladau ar gael o fewn dalgylchoedd ysgolion. Nododd ymhellach fod prosiectau eraill wedi cynnwys y trydydd sector e.e. Mencap Môn (am fod diffyg cefnogaeth i rieni newydd sydd â phlant gydag anghenion addysgol arbennig). Nododd y gallai gynllun peilot o’r fath gael ei gyflwyno ar draws Gogledd Cymru yn y dyfodol. Mae cyllid ICF hefyd wedi cefnogi prosiectau gwasanaethau oedolion ledled yr Ynys;
- Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau mae’r Bwrdd Partneriaeth yn ystyried fod y Tîm Adnoddau Cymunedol yn cyflawni gweledigaeth y Cynllun Gweithredu o integreiddio rhwng y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn rhanbarthol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod gan y Tîm Adnoddau Cymunedol weledigaeth lefel uchel gyda 3 tîm prosiect wedi'u hymgorffori o fewn yr Awdurdod. Mae cynllun yn ei le i fonitro pa mor effeithiol yw perfformiad y timau. Nododd ymhellach fod grŵp ar y cyd a'r bwrdd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi ei sefydlu fel nad oes rhaid i bobl gysylltu ag ystod o ddarparwyr gwasanaethau ar gyfer y cymorth;

- Cyfeiriwyd at gyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn pan gyfeiriodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr at y mesurau trawsnewid a gwella y mae'r Bwrdd yn eu cymryd yn enwedig o ran Iechyd Meddwl. Codwyd cwestiynau ynglŷn â sut yr oedd y Bwrdd Partneriaeth yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd o ran y mesurau trawsnewid. Dywedodd Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol fod cyfarfodydd am gael eu cynnal yn y dyfodol agos gyda'r Bwrdd Iechyd i drafod sut y gallai'r Bwrdd Partneriaeth gefnogi'r mesurau trawsnewid. Nododd ei bod yn hollbwysig nas yw gwaith y Bwrdd Partneriaeth yn amharu ar neu'n dyblygu gwaith y Bwrdd Iechyd;
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa ffyrdd y bydd yn rhaid i raglen waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gael ei ddiwygio a'i flaenoriaethu o ganlyniad i covid-19, a pha rôl y bydd yn ei chwarae yn ystod y cyfnod adfer. Mi wnaeth y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ymateb fod y pandemig wedi effeithio llif gwaith y Bwrdd Partneriaeth ac yn enwedig y rhan fwyaf o'r sefydliadau partner. Mae gwaith wedi ei ddatblygu i gynyddu'r capasiti staffio o fewn Gofal Cymdeithasol ac o fewn Cartrefi Gofal.

**PENDERFYNWYD nodi'r gwaith a'r cynnydd yn 2020/21 ar y meysydd gwaith sydd yn cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2020/21**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn fod gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus wedi ei effeithio gan y pandemig ynghyd a blaenoriaethau sefydliadau partner yn gorfod cael eu newid. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau partner wedi bod yn gweithio'n agos a'i gilydd i gefnogi'r cymunedau lleol yn ystod yr argyfwng iechyd byd-eang. Nododd fod yr adroddiad wedi'i strwythuro i gyfeirio ar gynnydd gwaith pedwar is-grŵp y Bwrdd. Mae arweinwyr is-grwpiau'r Bwrdd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac maent wedi bod yn gyfrifol am adrodd ar gynnydd yn ystod cyfnod 2020/21. Fe wnaethon nhw adrodd fod y cynydd wedi arafu am fod ymateb i'r argyfwng ac adfer cymunedau lleol wedi cymryd blaenoriaeth. Sefydlodd y Bwrdd bedwar is-grŵp gweithredu :-

- Newid Hinsawdd - bu i'r Is-grŵp gael ei sefydlu i annog cydweithio rhwng sefydliadau cyhoeddus ar liniaru effaith newid hinsawdd, ac yn benodol effaith llifogydd arfordirol a mewndirol ar gymunedau. Cynhaliwyd trafodaethau oddi fewn i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ynghylch yr angen i weithio'n agos a

chymunedau er mwyn cynnal trafodaethau angenrheidiol ynglŷn â beth sy'n bwysig o ran newid hinsawdd a llifogydd yn benodol. Yn ogystal, mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd a Chyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn drafod eu blaenoriaethau o ran newid hinsawdd tra ei bod yn rhaid ystyried bod gan awdurdodau lleol eu blaenoriaethau newid hinsawdd eu hunain a bydd angen sicrhau nad oes dyblygu gwaith a sicrhau fod gwaith yr Is-grŵp Newid Hinsawdd yn ychwanegu gwerth ac yn cefnogi'r rhaglen newid hinsawdd.

- Cartrefi i bobl leol - yn wreiddiol gofynnwyd i'r Is-grŵp sefydlu trefn cydweithio yn y sector tai ac i ddatblygu cartrefi mwy addas a fforddiadwy yn y lleoedd cywir. Mi oedd gan nifer o bartneriaid y Bwrdd gynlluniau eisoes i ddatblygu tai fforddiadwy ond un budd o weithio ar y cyd oedd cyflawni darbodion maint - yn benodol datblygiad tai ar y cyd i leihau costau datblygu ac i alluogi medru canolbwyntio ar ddatblygu tai arloesol. Dywedodd fod yr Is-grŵp Cartrefi wedi ystyried a chytuno fod eu gwaith yn dirwyn i ben am nad oes unrhyw werth pellach y byddent yn medru ei gyfrannu i'r gwaith sydd yn mynd ymlaen mewn datblygu tai gan sefydliadau unigol. Bydd rhaid i'r Bwrdd felly ail-ystyried y flaenoriaeth hon a chytuno ar ffordd ymlaen.

- Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig - profodd gwaith yr Is-Grwp mewn gofal iechyd a chymdeithasol yn allweddol yn ystod y pandemig ac yn enwedig i'r gwaith o adfer cymunedau lleol yn dilyn yr argyfwng. Mae ffyrdd newydd o weithio wedi eu datblygu yn rhithiol sydd wedi bod o fudd i'r timau amlddisgyblaethol. Trefnwyd cyfarfodydd wythnosol rhwng partneriaid yn ystod y cyfnod argyfwng i drafod y gwasanaethau o dan y mwyaf o bwysau a chynnig at ymatebion ar y cyd. Dangoswyd parodrwydd i weithio gyda'i gilydd ac addasu i amgylchiadau gwaith heriol. Mae gwaith nawr wedi ail-ddechrau yn y ffrydiau gwaith canlynol; Iechyd Meddwl, Oedolion a Phlant.

- Yr Iaith Gymraeg - mae'r Is-Grwp a'r Bwrdd yn deall pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r cymunedau lleol ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ac mae medru byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau cymunedol a gweithgareddau yn y Gymraeg yn bwysig. Mae'r pandemig wedi achosi heriau sylweddol i sefydliadau wrth geisio sicrhau parhad gwasanaethau. Mae gwaith yr Is-Grwp wedi cael ei oedi yn ystod 2020/21 am fod staff perthnasol wedi gorfod gwneud gwaith gwahanol neu wedi gorfod newid blaenoriaethau ac felly nid oedd yr Is-Grwp yn medru cyfarfod yn rheolaidd i yrru'r rhaglen waith yn ei blaen. Fodd bynnag, mae'r Is-Grwp wedi ymrwymo i wella'r iaith Gymraeg ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r cynnig prosiect gwreiddiol i newid y ffordd mae'r cyhoedd yn cyfathrebu ac unrhyw newidiadau yn rôl yr ardaloedd derbyn. Amcan y prosiect yw annog y defnydd o'r Gymraeg wrth ymgysylltu a sefydliadau cyhoeddus.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen ymhellach fod rhaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, bob 5 mlynedd, fel un o'r gofynion statudol a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), baratoi a chyhoeddi asesiad o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wedi dechrau ar y broses o adolygu'r Asesiad Llesiant. Nodwyd fod gweithdy wedi ei gynnal ym mis Medi 2020 i drafod y rhaglen adfer o ran y pandemig a thrafodaethau ynghylch

llesiant cymunedau lleol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Penderfynodd y Bwrdd barhau gyda'r ffrydiau gwaith drwy'r Is-grwpiau wrth gynnal trosolwg o faterion a godwyd e.e. twf mewn Twristiaeth, Ail Gartrefi a diweithdra.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ac fe godwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y broses ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod diwethaf o asesiadau llesiant. Nodwyd nad oedd y presenoldeb yn y digwyddiadau ymgysylltu hyn a drefnwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dda iawn. Codwyd cwestiynau ynghylch sut oedd y Bwrdd yn bwriadu hyrwyddo a chynyddu diddordeb y cyhoedd i fynychu'r digwyddiadau hyn yn y dyfodol ac os oes tystiolaeth fod preswylwyr yr Ynys wedi cael budd o weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyfeiriwyd hefyd at rôl y Bwrdd yn yr ymateb i'r pandemig. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod y Bwrdd wedi dysgu gwersi o'r rownd ddiwethaf o asesiadau llesiant. Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i beth mae sefydliadau partner wedi ei gyflawni, yn enwedig yn ystod y pandemig. Nododd fod y gwaith a gynhaliwyd gan Medrwn Môn mewn partneriaeth â'r Awdurdod hwn i ymgysylltu â'r cymunedau lleol yn ystod y pandemig yn mynd i gyfrannu tuag at yr asesiadau. Dywedodd ymhellach ei bod yn bwysig fod ymgysylltiad gyda phob grŵp o breswylwyr yn hollbwysig o fewn y cymunedau lleol. Nodwyd hefyd o safbwynt rhanbarthol, y cyfeiriwyd at y cydweithio rhwng y pedwar Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i gefnogi ymgysylltiad a'r potensial i gomisiynu ymgysylltiad gyda grwpiau anoddach i'w cyrraedd neu na glywir ganddynt yn aml, sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod y Bwrdd yn ymgysylltu, cefnogi a datblygu blaenoriaethau'r sefydliadau partner ar draws sbectrwm y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliadau hyn.
- Cyfeirwyd at y mapio Newid Hinsawdd o'r arfordiroedd sydd mewn perygl o gael eu herydu ac fe godwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Bwrdd am fynd i'r afael a'r mater. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod rhaid ystyried nad oes cefnogaeth ariannol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i fod wedi ei sefydlu fel rhan o'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau cydweithio rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau. Nododd mai rôl y bwrdd yw ymateb i faterion sy'n codi fel newid hinsawdd ac erydiad yr arfordir a bydd gofyniad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i fuddsoddi arian sylweddol er mwyn mynd i'r afael â'r mater.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa mor effeithiol yw'r Bwrdd ac os oes angen adolygu strwythur y Bwrdd a'i bod yn ymddangos fod dyblygu o ran y gwasanaethau a ddarperir. Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen fod Pwyllgorau Sgriwtini y ddau awdurdod lleol yn cael Adroddiad Blynyddol gan y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a hefyd y cyfle i graffu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd yn flynyddol. Nododd fod y Bwrdd wedi sefydlu nifer o Is-grwpiau ar ddechrau sefydliad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ond mae'r is-grwpiau hyn wedi cael eu lleihau os credir nad oeddent yn ychwanegu unrhyw werth i'r mater yr oeddent wedi ei sefydlu i fynd i'r afael ag ef.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU AC ADRODDIAD BID TWF CHWARTER 4

Cyflwynwyd– adroddiad gan Gyfarwyddwr Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ynghylch yr uchod.

Dywedodd y Deilydd Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd fod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gyfle i adfywio economi Gogledd Cymru yn dilyn y pandemig a Brexit.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn dymuno gweld y Bid Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn llwyddo a bod y prosiectau yn cael eu cyflawni i gymryd mantais o'r cyllid sydd ar gael. Dywedodd fod gan yr Ynys brosiectau arloesol fel rhan o fidiau twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Rhoddodd Gyfarwyddwr Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyflwyniad byr i'r Pwyllgor fel a ganlyn:-

**Y Portffolio Bid Twf**

- **Amcanion Gwariant dros y 15 mlynedd nesâd -** creu rhwng 3,400 a 4,200 net o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru.
- **GVA -** i gefnogi cynnydd ychwanegol net GVA o rhwng £2 biliwn a £2.4 biliwn ar gyfer economi Gogledd Cymru drwy'r Bid Twf erbyn 2036.
- **Buddsoddiad –** cyflawni cyfanswm buddsoddiad o hyd at £1.1 biliwn yn Economi Gogledd Cymru drwy'r Bid Twf erbyn 2036.

Bwriad y Bid Twf yw adeiladu economi cynaliadwy a llewyrchus yng Ngogledd Cymru gyda'r prif amcan o gael twf cynaliadwy cynhwysol sydd yn rhan o'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Y Rhaglenni**

- **Rhaglen Ddigidol** – Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru fodloni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. Creu hyd at 380 o swyddi erbyn 2036.
  **Cyfanswm Buddsoddiad £41.7m**

- **Rhaglen Tir ac Eiddo** – Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Creu 2,280 o swyddi erbyn 2036.
  **Cyfanswm Buddsoddiad £355.4m**

- **Rhaglen Ynni Carbon Isel -** Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol

y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. Creu 980 swydd erbyn 2036.

**Cyfanswm Buddsoddiad £668.5m**

- **Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** – Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i ynni carbon isel. Creu 180 swydd erbyn 2036.

  **Cyfanswm Buddsoddiad £39.5m**

- **Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth** – Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. Creu 380 o swyddi erbyn 2036.

  **Cyfanswm Buddsoddiad £41.3m**

Fe wnaeth Mr Hedd Williams adrodd ar yr Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i'r Pwyllgor. Nododd mai ffocws y chwarter hwn oedd symud i'r cyfnod cyflawni gyda'r gwaith a gychwynnodd yn Ionawr 2021 gydag adolygiad sylfaenol o'r holl brosiectau i ail-gadarnhau amserlenni ar gyfer datblygu a darparu achosion busnes. Yn ystod Chwarter 4 cynhaliwyd nifer o weithdai, yn unol â'r canllaw Achos Busnes Gwell, i gefnogi'r datblygiad o'r achosion busnes prosiect. Mi wnaeth y ddau brosiect cyntaf gwblhau'r Adolygiadau Porth a nawr yn gweithio i roi sylw i'r argymhellion a wnaed cyn cyflwyno achosion busnes diwygiedig er ystyriaeth. Y ddau brosiect yw prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn a'r prosiect Peirianneg Menter a Chanolfan Opteg dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr Wrecsam. Nododd fod dau brosiect yn adrodd fel 'Coch' ar hyn o bryd sef Safle Strategol Bodelwyddan oherwydd caniatâd cynllunio amlinellol yn dod i ben a Phorth Caergybi oherwydd costau yn codi ac angen i adolygu sgôp y prosiect. Mae nifer o brosiectau yn adrodd fel 'Amber' oherwydd prosesau datblygu busnes, sicrwydd a chymeradwyo yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Wedi arwyddo'r Llythyr Dyfarnu Grant ac wedi cyflwyno'r ddogfennaeth ofynnol, mae'r rhandaliad cyntaf o £16 miliwn wedi ei dderbyn gan y Llywodraethau ym mis Mawrth, 2021. Bydd yr arian hwn yn galluogi cyflawni prosiectau i ddechrau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan ddisgwylir ystyried a gwneud penderfyniad ar y gyfran gyntaf o achosion busnes prosiect.

Rhoddodd Mr Williams drosolwg o'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor. Roedd yr Adroddiad Blynyddol ynghlwm wrth yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ac fe godwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Codwyd cwestiynau os oes risg o brosiectau mawr ddim yn cael eu gwireddu o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd oherwydd y tensiwn sydd wedi ei adrodd rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU yn ddiweddar oherwydd penderfyniadau ynghylch nifer o faterion. Cyfeiriwyd at Gaergybi, am fod gan Lywodraeth y DU syniadau penodol o 'borthladd rhydd' tra bod Llywodraeth Cymru yn anghytuno. Dywedodd y Cyfarwyddwr Portffolio ei bod yn bwysig rheoli unrhyw risg sy'n

codi fel rhan o’r strwythur rheoli rhaglen. Nododd ei bod yn gweithio’n agos gyda Swyddogion o Lywodraethau Cymru a’r DU ac fel partneriaeth bydd yn galluogi economi Gogledd Cymru i ffynnu. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae costau adnoddau a chostau adeiladu wedi cael eu codi o ran y prosiectau sydd wedi eu cyflwyno er mwyn cymryd mantais o’r Bid Twf. Pwysleisiodd fod y ddwy Lywodraeth eisiau gweld y prosiectau’n llwyddo o fewn y Bid Twf.

- Cyfeirwyd at y dadlau o ran y fargen masnach o ran amaethyddiaeth ag Awstralia yn ddiweddar a’r effaith y gallai ei gael ar amaethyddiaeth yng Ngogledd Cymru. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi ystyried y mater hwn. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Portffolio bod y Bwrdd yn edrych ar arloesi ym myd amaeth o ran datgarboneiddio ac nad yw penderfyniadau'r Byrddau wedi newid oherwydd Brexit. Mae'r Bwrdd yn parhau i ystyried bod angen cefnogi busnesau gwyrdd;
- Codwyd cwestiynau ynghylch os oes ymgynghoriad wedi ei gynnal â'r Undebau Llafur o ran creu 3,400 i 4,000 o swyddi newydd o fewn y datblygiadau prosiect sydd ynghlwm â'r Bid Twf. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Portffolio nad oedd yn ymwybodol y bu cyfarfodydd nac ymgysylltu â'r Undebau Llafur ond y byddai angen iddi drafod y mater ymhellach o fewn y Bwrdd Uchelgais.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â manylion prosiectau Porth Caergybi. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Portffolio fod gan y prosiect ystod o gynlluniau e.e. Morglawdd Caergybi (buddsoddiad ar y cyd â Stena ar gyfer gwelliannau angenrheidiol i’r Morglawdd); buddsoddiad ym Mhorthladd Caergybi mewn perthynas â thir ac eiddo sydd â photensial datblygu a'r gallu i greu cyflogaeth i gefnogi economi Gogledd Cymru. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch perchnogaeth Morglawdd Caergybi. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr y deellir mai Stena sy'n gyfrifol am Forglawdd Caergybi ond nododd Llywodraeth y DU a Chymru bwysigrwydd y Morglawdd i Borthladd Caergybi er mwyn sicrhau ffyniant Tref Caergybi.
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y mae cyllid preifat yn mynd i gael ei ddiogelu o fewn y Fargen Twf. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Portffolio bod gallu i ddenu buddsoddiad preifat o fewn y prosiect ond byddai angen sicrwydd arnynt fod y prosiect yn hyfyw iddynt fuddsoddi yn y prosiectau hyn. Nododd fod angen ymgysylltu ymhellach â'r sector preifat i ddeall y cyfleoedd y maent yn edrych i fuddsoddi ynddynt megis sectorau twf, sectorau gweithgynhyrchu lefel uwch a sectorau ynni carbon isel.
- Codwyd cwestiynau ynghylch yr heriau neu'r cyfleoedd ychwanegol a ragwelir wrth geisio cyflawni'r prosiectau o ganlyniad i'r pandemig, a sut mae'r Bwrdd yn bwriadu rhoi sylw i'r rhain. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Portffolio ei bod yn amlwg bod y pandemig wedi effeithio'n fawr ar yr economi. Nododd fod y Bwrdd Uchelgais wedi ystyried a yw'r buddsoddiad yn y Bid Twf yn dal yn briodol ar gyfer economi Gogledd Cymru ac mae’r pandemig wedi dangos yr angen am gysylltedd digidol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Portffolio ymhellach fod angen cyllid refeniw ar gyfer sgiliau cyflogadwyedd ac i greu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth ac i arwain pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau tuag at y prosiectau hyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer 2020/21 a’r Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 ac i nodi’r cynnydd.**

**Gweithred : Fel y nodwyd uchod.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar y fersiwn presennol o’r blaen raglen waith ar gyfer 2021/22;**
- **Nodi’r cynnydd hyd yn hyn o ran cyflawni’r blaen raglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:00 yh

**CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **20 Medi, 2021** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Cynnydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Chwarter 1: 2021/22** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno adroddiad cynnydd Chwarter 1: 2021/22 y Cynllun Twf yn unol â Chytundeb Terfynol y Cynllun Twf** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Llinos Medi Huws, Arweinydd y Cyngor**<br><br>**Cyng Carwyn Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr**<br>**01248 752102**<br>**AnnwenMorgan2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** graffu ar y cynnydd hyd yma gyda'r Cynllun Twf<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 1 (2021/22). |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig ag Amcan 1 yng Nghynllun y Cyngor 2017/22:<br><br>• Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir – Swyddi a chyfleoedd gwaith<br>• Chydweithio â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn denu buddsoddiad a sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyflogaeth leol yn mynd yn eu blaenau. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt: |

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini wedi'i sicrhau gyda'r cynnydd a wnaed ac a adroddir arno yn Chwarter 1: 2021/22?
2. Beth yw'r materion neu'r risgiau lleol y dylid eu hamlygu i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd rhanbarthol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru

1.2 Mae adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Atodir Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru Chwarter 1: 2021/22 (**Atodiad 1**).

**2. Cynnydd Chwarter 1**

2.1 Mae adroddiad perfformiad Chwarter 1 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf. Yn y chwarter hwn, gwelwyd yr Achos Busnes Amlinellol (OBC) cyntaf yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae'r broses sicrwydd ar gyfer y prosiect wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ers hynny. Bydd prosiect ynni llanw Morlais dan arweiniad Menter Môn bellach yn symud i'r wedd nesaf o gyflwyno Achos Busnes Llawn i'w ystyried unwaith y bydd y broses ganiatau wedi'i chwblhau.

2.2 Mae dau Achos Busnes Amlinellol pellach wedi dechrau ar y broses gymeradwyo sef Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai a'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol dan arweiniad Prifysgol Bangor. Mae'r ddau wedi cwblhau eu Hadolygiadau Porth annibynnol ac mae trefniadau wedi'u gwneud iddynt gael eu cyflwyno i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf.

2.3 Mae mwyafrif y rhaglenni a'r prosiectau yn adrodd yn **Ambr** ar hyn o bryd yn sgil adolygu amserlenni datblygu'r achosion busnes a arweiniodd at oedi o gymharu â'r amserlen a amlinellwyd yn Achos Busnes y Portffolio. Mae hyn yn bennaf yn sgil y broses datblygu achosion busnes a bod ein proses sicrwydd a chymeradwyo mewnol wedi cymryd yn hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae'r broses yr ydym yn ei dilyn yn gadarn ac yn unol â'r canllawiau perthnasol ac yn y pendraw bydd yn sicrhau mai dim ond achosion busnes o'r ansawdd uchaf gaiff eu cymeradwyo i'w cyflwyno ar gyfer y Gogledd. Ni ystyrir bod yr oedi yn cynrychioli risg i gyflawni buddion

cyffredinol y Cynllun Twf ond gall effeithio ar union amseriad gwireddu'r buddion.

2.4 Mae'r prosiectau canlynol yn adrodd yn **Goch** ar hyn o bryd naill ai yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- **Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Champysau Cysylltiedig** (Y Rhaglen Ddigidol) – mae amserlen datblygu'r achos busnes wedi'i gwthio'n ôl i ganiatau i gapasiti'r rhaglen i ganolbwyntio ar ddau brosiect cychwynnol y Swyddfa Rheoli Portffolio
- **Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan** (Y Rhaglen Tir ac Eiddo) – mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi llithro a bydd angen adolygu'r prosiect pan fydd y polisi cynllunio newydd ar gyfer y safle wedi'i sefydlu
- **Porth Caergybi** (Y Rhaglen Tir ac Eiddo) – mae sgôp y prosiect yn cael ei adolygu yn sgil pryderon ynghylch cost y prosiect a'r achos masnachol.

2.5 Mae nifer o weithgareddau caffael wedi'u cwblhau i gefnogi gwaith y tîm. Rydym wedi croesawu partner cyfathrebu strategol newydd – Ateb Cymru – sydd wedi'u penodi i gefnogi ein gweithgareddau cyfathrebu a marchnata tra bod Hatch Regeneris wedi'u penodi i ddarparu ymgynghoriaeth achos busnes cyffredinol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Hefyd, rydym wedi comisiynu Wavehill i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achos economaidd ar gyfer y prosiect Ynni Lleol Blaengar a Real Wireless i gyflawni astudiaeth sgopio i gefnogi'r prosiect Coridorau Cysylltiedig o fewn y Rhaglen Ddigidol.

2.6 Gan nad oes yr un Achos Busnes Llawn ar gyfer unrhyw brosiect wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd, mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

**3. Cofrestr Risg y Portffolio**

3.1 Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

3.2 Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio diwygiedig a chamau lliniaru ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

3.3 Mae proffîl risg cyffredinol y Cynllun Twf yn sefydlog. Fodd bynnag, mae'r risg ynghylch fforddiadwyedd wedi cynyddu gan fod costau adeiladu wedi codi'n sylweddol dros y misoedd diwethaf. Mae hyn yn effeithio ar Fargeinion Twf a Dinesig eraill ac yn cael ei fonitro. Mae rhai risgiau arwyddocaol yn parhau yng nghyd-destun ambell i brosiect unigol a sicrhau'r buddsoddiad sector preifat angenrheidiol yn y Cynllun Twf.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad cynnydd hwn. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffîl gwariant cyfalaf disgwyliedig cyllid y Cynllun Twf. Gan nad oes yr un achos busnes prosiect wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd, mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Yn y dyfodol, bydd fersiynau o'r adroddiad hwn yn cynnwys adrodd ar wariant ariannol yn dilyn cymeradwyo achos busnes y prosiect. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru Chwarter 1: 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## 2021-22 Chwarter 1

(Ebrill - Mehefin 2021)

Adroddiad Perfformiad

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio....3

2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio....4

3. Rhaglen Digidol....5

4. Rhaglen Ynni Carbon Isel....7

5. Rhaglen Tir ac Eiddo....10

6. Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth....13

7. Rhaglen Arlosei mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel....15

8. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf....17

9. Prosiectau'r Cynllun Twf - Proffil Cyllid Cyfalaf....18

10. Prosiectau'r Cynllun Twf - Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf....19

11. Prosiectau'r Cynllun Twf - Dyraniad a Gwariant Cyllid Cyfalaf 2021/22....20

Atodiad A - Crynodeb o'r Prosiectau....21

Y chwarter hwn, gwelwyd yr **Achos Busnes Amlinellol (OBC) cyntaf yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** ac mae'r broses sicrwydd ar gyfer y prosiect wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ers hynny. Bydd prosiect ynni llanw Morlais, dan arweiniad Menter Môn, bellach yn symud i'r ail wedd o gyflwyno Achos Busnes Llawn i'w ystyried unwaith y bydd y broses ganiatáu wedi'i chwblhau.

**Mae dau Achos Busnes Amlinellol pellach wedi dechrau ar y broses gymeradwyo,** sef Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai a'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol dan arweiniad Prifysgol Bangor. Mae'r ddau wedi cwblhau eu Hadolygiadau Porth annibynnol ac mae trefniadau wedi'u gwneud iddynt gael eu cyflwyno i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf.

Mae hyn yn dangos y cynnydd sylweddol ers llofnodi'r Cynllun Twf Terfynol gyda phartneriaid yn y Llywodraethau ym mis Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, rhaid i ni nodi hefyd bod amserlenni gwreiddiol datblygu rhai o'n prosiectau, fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Twf Terfynol, wedi llithro. Mae hyn yn bennaf yn sgil y **broses datblygu achosion busnes a bod ein proses sicrwydd a chymeradwyo mewnol wedi cymryd yn hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol.** Mae'r broses yr ydym yn ei dilyn yn gadarn ac yn unol â'r canllawiau perthnasol ac, yn y pendraw, bydd yn sicrhau mai dim ond achosion busnes o'r ansawdd uchaf gaiff eu



**Fe wnaeth y tîm Rheoli Portffolio gryfhau ymhellach yn ystod y chwarter hwn**, gyda Sara Jones yn ymuno â ni fel Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol, Thomas Boome fel Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo, Catherine Evans fel Swyddog Prosiect Digidol, Cath Morris-Roberts fel y Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogadwyedd ac Elin Angharad Evans fel y Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogadwyedd Graddedig.

Mae nifer i weithgareddau caffael wedi'u cwblhau i gefnogi gwaith y tîm.

- Rydym wedi croesawu partner cyfathrebu strategol newydd, Ateb Cymru, sydd wedi'u penodi i gefnogi ein gweithgareddau cyfathrebu a marchnata.
- Tra bod Hatch Regeneris wedi'u penodi i ddarparu ymgynghoriaeth achos busnes cyffredinol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio.
- Rydym wedi comisiynu Wavehill i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achos economaidd ar gyfer y prosiect Ynni Lleol Blaengar.
- Rydym wedi comisiynu Real Wireless i gyflawni astudiaeth sgopio i gefnogi'r prosiect Coridorau Cysylltiedig o fewn y Rhaglen Ddigidol.

Ym mis Mai fe wnaethom **groesawu Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, y Gweinidog David T.C. Davies AS,** ynghyd ag aelodau o'i dîm. Dyma oedd yr ymweliad wyneb yn wyneb cyntaf i'r Gweinidog ers i'r rheolau Covid gael eu llacio. Cafodd y Gweinidog gyfle i ymweld â safle ambell un o brosiectau'r Cynllun Twf a chyfarfod â rhanddeiliaid allweddol.

Cyfarfu'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn a minnau â **Vaughan Gething, AS, y Gweinidog Economi newydd, a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru newydd, Lesley Griffiths, AS,** i'w diweddaru nhw ar y Cynllun Twf a'r cyfleoedd ehangach ar gyfer yr economi yn y Gogledd.

Yn olaf, cynhaliodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru e**i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 18 Mehefin,** pan gadarnhawyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Mark Pritchard yn Is-gadeirydd ar gyfer 2021-22.

*Alwen Williams*

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

| Themau | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | Gwyrdd | Cymeradwywyd Achos Busnes y Portffolio fel rhan o'r Cytundeb Twf Terfynol ym mis Rhagfyr 2020. Caiff yr achos busnes ei ddiweddaru'n flynyddol, gyda'r diweddariad cyntaf wedi'i amserlennu ar gyfer mis Awst 2021. Mae gwaith bellach wedi dechrau ar y diweddariad blynyddol, ac mae trefniadau i'r achos busnes wedi'i ddiweddaru gael ei ystyried gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Bwrdd Uchelgais" neu'r "Bwrdd") ym mis Medi. |
| Piblinell Cyflawni | Oren | Mae'r amserlen ar gyfer datblygu achosion busnes prosiectau wedi llithro gyda nifer o brosiectau bellach yn rhagweld oedi o 3-6 mis. Mae hyn yn bennaf yn sgil y broses datblygu achosion busnes a'r broses sicrwydd a chymeradwyo yn cymryd yn hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, ac ni ystyrir ei fod yn risg sylweddol i gyflawni'r Cynllun Twf. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi rhoi proses sicrwydd gadarn yn ei lle er mwyn sicrhau bod achosion busnes o'r safon angenrheidiol ac, o ganlyniad, bydd ansawdd gwell yr achosion busnes o fudd i'r rhanbarth yn y tymor hwy gan ddarparu mwy o sicrwydd ynghylch costau a buddion. |
| Llywodraethu | Gwyrdd | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn weithredol. Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu 2 gan yr holl bartneriaid ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r broses Gwrthdaro Buddiannau wedi'i chyflwyno i'r Bwrdd Cyflawni Busnes, y Bwrdd Portffolio a'r Byrddau Rhaglen ac mae'n cael ei chyflwyno i'r Byrddau Prosiect ar hyn o bryd. |
| Sicrwydd | Gwyrdd | Mae'r broses sicrwydd rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda. Mae tri phrosiect bellach wedi cwblhau adolygiadau Porth 2 gan gynnwys prosiect Morlais, y prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol a phrosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon. |
| Adnoddau a Chapasiti | Oren | Dim ond dwy swydd sy'n dal i fod yn wag yn y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae'r swyddi hyn yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd (Gorffennaf 2021). Er bod capasiti o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i wella'n sylweddol, mae capasiti partneriaeth ehangach y Bwrdd Uchelgais i gefnogi'r rhaglenni a'r prosiectau amrywiol yn bryder, oherwydd swmp y gwaith sydd ynghlwm â'r Cynllun Twf. |
| Cyllid | Gwyrdd | Mae'r Llythyr Cynnig Grant wedi'i dderbyn a'i lofnodi a derbyniwyd y wedd gyntaf o gyllid (£16 miliwn) ym mis Mawrth 2021. Gan nad oes yr un prosiect wedi cyrraedd y cam Achos Busnes Llawn eto, mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddeall goblygiadau'r cyhoeddiad gan Drysorlys Llywodraeth y DU yn natganiad cyllideb yr hydref eu bod yn cyflymu'r cyllid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru dros 10 mlynedd yn hytrach na 15 mlynedd. |
| Risg | Oren | Mae proffil risg cyffredinol y Cynllun Twf yn sefydlog, fodd bynnag, mae'r risg ynghylch fforddiadwyedd wedi cynyddu gan fod costau adeiladu wedi codi'n sylweddol dros y misoedd diwethaf. Mae hyn yn effeithio ar Fargeinion Twf a Dinesig eraill ac yn cael ei fonitro. Mae rhai risgiau arwyddocaol yn parhau yng nghyd-destun ambell i brosiect unigol a sicrhau'r buddsoddiad sector preifat angenrheidiol yn y Cynllun Twf. |
| Monitro a Gwerthuso | Oren | Caiff Cynllun Monitro a Gwerthuso ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o ddiweddariad blynyddol yr achos busnes portffolio ac yn unol â'r Cynllun Gwireddu Buddion wedi'i ddiweddaru. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Gwyrdd | Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu brand a gwefan newydd, gyda'n partner asiantaeth creadigol digidol, Tinint. Mae partner cyfathrebu strategol newydd, Ateb Cymru, wedi'i benodi i gefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais. |

- Gwyrdd: Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Oren: Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
- Coch: Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

## Rhaglen Digidol

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Budsoddiad GVA | Cyfanswm Targed Budsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |



| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae adnoddau i gefnogi'r Rhaglen Ddigidol bellach yn eu lle gyda Rheolwr Prosiect Digidol a Swyddog Prosiect Digidol wedi dechrau yn eu swyddi.<br>• Mae achos busnes amlinellol y ganolfan Brosesu Signal Digidol wedi'i baratoi ac mae Adolygiad Porth y prosiect wedi cael ei gynnal. Dyfarnodd y panel adolygu ddeilliant Ambr-Gwyrdd i'r prosiect (y sgôr sicrwydd uchaf ond un).<br>• Mae Byrddau Prosiect bellach yn eu lle ar gyfer Coridorau Cysylltiedig, yr Ychydig Ganrannau Olaf a'r prosiectau canolfan Brosesu Signal Digidol gyda'r ddau sy'n weddill (Campysau Cysylltiedig a Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol) i gael eu sefydlu yn Chwarter 2 a Chwarter 3.<br>• Bu ychydig o oedi gyda chyflawni'r achosion busnes amlinellol ar gyfer yr Ychydig Ganrannau Olaf a'r Coridorau Cysylltiedig oherwydd gwaith ychwanegol sydd ei angen i gefnogi datblygiad yr achosion busnes.<br>• Fe wnaeth bwrdd prosiect y Coridorau Cysylltiedig nodi'r gofyn am fwy o waith sgopio er mwyn datblygu'r achos busnes.<br>• Bydd achos busnes amlinellol ar gyfer prosiect yr Ychydig Ganrannau Olaf yn cael ei gwblhau pan fydd deilliant 'Adolygiad Marchnad Agored' o osodiad band llydan, Llywodraeth Cymru ar gael yn Chwarter 3. |



**Cyng Mark Pritchard**
Aelod Arweiniol



**Steve Bayley**
Uwch Berchennog Cyfrifol



**Stuart Whitfield**
Rheolwr Rhaglen

- Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (ar gyfer y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg dros y Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol** Prifysgol Bangor | Achos Busnes Amlinellol (OBC) yn barod ar gyfer penderfyniad gan y Bwrdd Uchelgais | · Adolygiad Porth wedi'i gwblhau<br>· Adolygiadau Bwrdd Cyflawni Busnes, Bwrdd Rhaglen wedi'u cwblhau<br>· Adolygiad o'r achos busnes gan y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i gwblhau | · Cwblhau'r broses gymeradwyo - Cwblhau'r broses gymeradwyo - Ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd o'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Gorffennaf 2021<br>· Cychwyn cam cyntaf y gwaith caffael<br>· Datblygu'r Achos Busnes yn Llawn | | · Mae adolygiad helaeth o'r Achos Busnes Amlinellol wedi mireinio'r cynllun ar gyfer y prosiect ac mae llwybr caffael cliriach wedi cael ei nodi.<br>· Dim problemau yn effeithio ar gwblhau'r Achos Busnes Llawn fel y trefnwyd. |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf** Bwrdd Uchelgais | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) | · Nodwyd ystod o opsiynau masnachol a thechnegol<br>· Mae aelodaeth y bwrdd prosiect wedi cynyddu ac ehangu gydag aelodau newydd o'r sector preifat a'r trydydd sector | · Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddrafftio<br>· Adolygiad Porth<br>· Adolygiadau Bwrdd Rhaglen a Bwrdd Cyflawni Busnes<br>· Penodi Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol | | · Oedi ar ddatblygiad yr achos busnes oherwydd yr angen i asesu deilliant adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru yn Chwarter 3. |
| **Coridor Cysylltiedig** Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Cwblhau Astudiaeth Gwmpasu er mwyn mireinio Achos Amlinellol Strategol<br>· Penodi dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol y prosiect | · Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddrafftio<br>· Adolygiadau Bwrdd Rhaglen a Bwrdd Cyflawni Busnes | | · Oedi ar ddatblygiad yr achos busnes oherwydd yr angen i ymgymryd â mwy o waith sgopio ar gyfer yr Achos Amlinellol Strategol |
| **Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol** Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Dim - nid yw datblygiad achos busnes y prosiect wedi dechrau | · Sefydlu'r bwrdd prosiect a phenodi Uwch Berchennog Cyfrifol<br>· Datblygu Achos Amlinellol Strategol | | · Datblygiad yr achos busnes wedi'i ohirio er mwyn galluogi i gapasiti'r rhaglen ganolbwyntio ar ddau brosiect cychwynnol |
| **Campws Cysylltiedig** Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Dim - nid yw datblygiad achos busnes y prosiect wedi dechrau | · Sefydlu'r bwrdd prosiect a phenodi Uwch Berchennog Cyfrifol<br>· Datblygu Achos Amlinellol Strategol | | · Datblygiad yr achos busnes wedi'i ohirio er mwyn galluogi i gapasiti'r rhaglen ganolbwyntio ar ddau brosiect cychwynnol |

Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

## Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu trefniadau llywodraethu'r prosiect ar draws y rhaglen.<br>• Achos Busnes Llawn Morlais yn cael ei ddatblygu yn dilyn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol. Amserlen sicrwydd ac adolygu'r Achos Busnes Llawn wedi'i gytuno gyda Menter Môn gyda bwriad i'r Bwrdd Uchelgais wneud penderfyniad ariannu ar 10 Rhagfyr<br>• Achos Busnes Amlinellol Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel yn cael ei ddatblygu ac yn rhedeg yn hwyr o 3-6 mis<br>• Datblygiad Achos Amlinellol Strategol Prosiect Ynni Lleol Blaengar ar y trywydd iawn gyda chefnogaeth ymgynghorydd wedi'i gaffael yn llwyddiannus<br>• Achos Amlinellol Strategol Datgarboneiddio Trafnidiaeth wedi'i ddrafftio gydag ychydig o oedi yn ddisgwyliedig wrth gyflawni'r Achos Busnes Amlinellol gan fod angen i'r Bwrdd Prosiect symud trafodaethau yn eu blaen o ran cydlyniad rhwng Canolfannau Caergybi a Glannau Dyfrdwy a rôl hydrogen i gefnogi datgarboneiddio rhanbarthol. |



**Cyng Llinos Medi**
Aelod Arweiniol



**Dylan Williams**
Uwch Berchennog Cyfrifol



**Henry Aron**
Rheolwr Rhaglen

- (Gwyrdd) Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- (Ambr) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
- (Coch) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (ar gyfer y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg dros y Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Morlais**<br>Menter Môn | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Llawn (FBC) | · Yr Achos Busnes Amlinellol (OBC) wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ar 14 Mai a'r broses sicrwydd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ers hynny.<br>· Cynnydd da wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r adolygiad porth<br>· Gweithgorau cadwyn gyflenwi a sgiliau wedi'u sefydlu<br>· Proses ailddosbarthu angorfeydd wedi'i chwblhau gyda saith datblygwr tyrbinau wedi cael angorfeydd yn y parth arddangos | · Datblygu Achos Busnes Llawn (FBC)<br>· Paratoi cytundeb ariannu a chontract drafft<br>· Disgwyl penderfyniadau caniatâd prosiect ym mis Hydref 2021<br>· Menter Môn i gwblhau'r broses gaffael o ran contractwyr sifil a drilio | | · 3-6 mis ar ei hôl hi o ran yr amserlen waelodlin<br>· Risgiau allweddol a phroblemau sy'n gysylltiedig â rhoi caniatâd a mecanweithiau cefnogi refeniw'r Llywodraeth ar gyfer ynni llanw yn cael ei reoli gan fwrdd prosiect |
| **Datgarboneiddio Trafnidiaeth**<br>Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) a Rheolwr Prosiect yn eu lle. Cyfarfod cychwynnol y Bwrdd Prosiect wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf<br>· Achos Amlinellol Strategol Hwb Hydrogen Glannau Dyfrdwy wedi'i lunio gan Jacobs<br>· Trafodaethau gyda Menter Môn a Llywodraeth Cymru a'r DU o ran cydlyniad posib rhwng prosiectau Caergybi a Glannau Dyfrdwy<br>· Drafftio adroddiad ar gyfleoedd rhanbarthol ehangach sy'n arwain o ddatblygu canolfannau hydrogen a ddatblygwyd gan Element Energy. | · Cyfarfod cychwynnol y Bwrdd y Prosiect ym mis Gorffennaf<br>· Bwrdd Prosiect i ystyried cydlyniad rhwng Canolfannau Caergybi a Glannau Dyfrdwy a rôl hydrogen i gefnogi datgarboneiddio rhanbarthol<br>· Bwrdd Prosiect i oruchwylio'r dasg o gwblhau'r Achos Amlinellol Strategol a dilyniant yr Achos Busnes Amlinellol | | · 1-3 mis ar ei hôl hi o ran yr amserlen waelodlin ar gyfer datblygu Achos Busnes Amlinellol<br>· Angen penderfyniadau strategol gan y bwrdd prosiect o ran yr integreiddiad / cydlyniad rhwng y canolfannau hydrogen arfaethedig |

Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (ar gyfer y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg dros y Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel** Prifysgol Bangor | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) | · Datblygiad Achos Busnes Amlinellol yn mynd rhagddo<br>· Cynhaliwyd gweithdai mewnol i ddatblygu sgôp y prosiect a chofrestr risg y prosiect<br>· Cynlluniau yn eu lle i sefydlu bwrdd ymgynghorol diwydiannol i gefnogi'r dasg o gyflawni'r prosiect | · Parhau â'r broses o ddatblygu Achos Busnes Amlinellol gan gynnwys gweithdai achos busnes<br>· Trefnu Adolygiad Porth 2 a chadarnhau amserlen gyflawni Achos Busnes Amlinellol | Ambr | · 1-3 mis ar ei hôl hi o ran yr amserlen waelodlin ar gyfer datblygu Achos Busnes Amlinellol<br>· Amserlen cyflawni prosiect i'w datblygu (e.e. caniatâd, caffael ac adeiladu) |
| **Ynni Lleol Blaengar** Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) wedi'i benodi a Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu. Dadansoddiad budd-ddeiliaid a gweithdai risg wedi'u cyflawni.<br>· Achos strategol wedi'i ddrafftio. Ymgynghorydd wedi'i benodi i gynorthwyo gyda'r achos economaidd.<br>· Ceisiadau Cronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer astudiaethau dichonoldeb ar systemau ynni blaengar wedi'u cyflwyno drwy Gynghorau Sir Ynys Môn, Sir Ddinbych, Wrecsam a Gwynedd.<br>· Adroddiad drafft yr astudiaeth aml-ffynhonnell Pen Llŷn wedi'i dderbyn gan Aquatera | · Cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol drafft ac amserlennu Adolygiad Porth 1 os oes angen<br>· Rhannu astudiaeth aml-ffynhonnell derfynol Pen Llŷn gyda rhan-ddeiliaid a chynllunio'r camau nesaf yn seiliedig ar argymhellion yr adroddiad.<br>· Dechrau cyflawni prosiectau Cronfa Adfywio Cymunedol (os ydynt yn llwyddiannus) | Gwyrdd | · Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau / problemau sylweddol |
| **Gorsaf Bŵer Trawsfynydd** Cwmni Egino | Disgwylir i broses achos busnes y prosiect ddechrau yn 2022 | · Sefydlu Cwmni Egino, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2020. Ymgorfforwyd a chofrestrwyd y cwmni ym mis Mehefin 2021<br>· Asesiad effaith economaidd ar leoli Adweithydd Modwlar Bach neu Uwch yn Nhrawsfynydd wedi'i gwblhau<br>· Cynrychiolydd Swyddfa Rheoli Portffolio yn mynychu Bwrdd Rhaglen Trawsfynydd, Llywodraeth Cymru | · Penodi Prif Swyddog Gweithredol (CEO) Cwmni Egino a datblygu cynllun gwaith y prosiect<br>· Ymgysylltu rhwng Cwmni Egino a'r Swyddfa Rheoli Portffolio o ran amserlen datblygu achos busnes ac amcanion ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br>· Gweithdai Gwireddu Buddiannau | Ambr | · Prosiect ar y trywydd iawn yn erbyn yr amserlen lefel uchel ddangosol a gytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru<br>· Gallai oedi gyda phenodi personél Cwmni Egino effeithio ar ddatblygu achos busnes y prosiect |

| Lliw | Ystyr |
|---|---|
| Gwyrdd | Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) |
| Ambr | Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle) |
| Coch | Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen) |

## Rhaglen Tir ac Eiddo:

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2,280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwadau Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Oren) | • Mae datganiad sefyllfa'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar leihad o ran carbon gweithredol ac ymgorfforedig a gwelliannau bioamrywiaeth yn cael ei asesu o ran yr effaith ar brosiectau.<br>• Mae Bwrdd Prosiect wrthi'n cael ei sefydlu ar gyfer Porth y Gorllewin, Wrecsam, gyda Chyngor Bwrdeistref Wrecsam a Phriffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• Bydd Warren Hall, Brychdyn, angen Datganiad Tir Cyffredin ar gyfer ei gyflwyno i Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Mae tîm prosiect yn cael ei sefydlu i asesu p'un a yw'r Safle Strategol Allweddol, Bodlelwyddan yn hyfyw ac yn gyflwynadwy yn sgil newidiadau posib i'r polisi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y safle.<br>• Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych, wrthi'n cael ei ddrafftio.<br>• Mae prosiect Parc Bryn Cegin, Bangor i'w ddatblygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol â safbwynt y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth.<br>• Mae tîm o swyddogion fydd yn datblygu'r achosion busnes cysylltiedig ar gyfer adennill tir ac adnewyddu'r morglawdd yn harbwr Caergybi, wrthi'n cael ei sefydlu |




Cyng Hugh Evans
Aelod Arweiniol


Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol


David Mathews
Rheolwr Rhaglen

- (Gwyrdd) Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- (Oren) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
- (Coch) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (ar gyfer y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg dros y Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam** Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Tîm Prosiect yn esblygu yn Fwrdd Prosiect ffurfiol.<br>· Cyfarwyddwr Prosiect Gwella Cyffordd yr A483 Llywodraeth Cymru (LlC) wedi'i gynnwys yn y tîm.<br>· Dibyniaethau'r datblygiad, materion, cyfyngiadau ac amserlenni dangosol wedi'u hasesu. | · Penodi Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO).<br>· Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu a'r aelodaeth wedi'i gryfhau.<br>· Cytuno ar raglen waith amlinellol.<br>· Adnabod ffynonellau cyllid refeniw i gefnogi'r datblygiad. | Ambr | · Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i amserlennu ar gyfer diwedd 2021 a rhaglen diweddaru cyffordd yr A483 fydd yn pennu'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r prosiect |
| **Warren Hall, Brychdyn** Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Archwiliad Cyhoeddus (EiP) y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) wedi mynd rhagddo<br>· Achos Diogelwch Maes Awyr Penarlâg wedi'i godi yn yr EiP.<br>· Deialog yn parhau gydag Airbus, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'r Swyddfa Rheoli Portffolio ynghylch effaith yr achos diogelwch ar y datblygiad arfaethedig. | · Effaith achos Diogelwch Maes Awyr Penarlâg wedi'i gwblhau'n derfynol.<br>· Datganiad Tir Cyffredin wedi'i gyflwyno i'r Archwiliad Cyhoeddus | Ambr | · Amserlen Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2021. |
| **Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan** Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Daeth y caniatâd cynllunio amlinellol i ben ym mis Mawrth 2021 ac fe dynnodd y datblygwr yn ôl o'r prosiect.<br>· Deialog gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer sgôp y prosiect posib, gan alluogi i'r dystiolaeth gael ei chasglu ar gyfer adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol. | · Cyfarfodydd i adolygu'r prosiect yn sgil y newid posib ym mholisi'r Cynllun Datblygu Lleol.<br>· Adolygu tybiaethau datblygu a'r costau dangosol i asesu eu cyflwynadwyedd/ hyfywdra | Coch | · Polisi Cynllun Datblygu Lleol presennol i'w adolygu erbyn 2023 a pholisi newydd i gael ei fabwysiadu.<br>· Tebygol y bydd sgôp y prosiect yn cael ei newid yn sylweddol.<br>· Hyfywdra'r datblygiad yn bryder. |

- (Gwyrdd) Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- (Ambr) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
- (Coch) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (ar gyfer y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg dros y Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych**<br>Bwrdd Uchelgais | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) | · Achos Busnes Prosiect Amlinellol yn cael ei ddrafftio<br>· Cyllid Menter Adfer Gwyrdd wedi'i ddiogelu i ddarparu is-orsaf ychwanegol ar y safle<br>· Penawdau'r Telerau ar gyfer cyllid ymyrraeth wrthi'n cael eu negodi.<br>· Achos bioamrywiaeth y cais cynllunio yn cael ei gwblhau'n derfynol gan y partner datblygu. | · Cais cynllunio'n cael ei ystyried yn y Pwyllgor Cynllunio<br>· Achos Busnes Amlinellol wedi'i gyflwyno.<br>· Gweithdai datblygu achos busnes wedi'u cwblhau ac Adolygiad Porth 2 wedi'i amserlennu. | | · Ansicrwydd ynghylch cost y datblygiad a lefel yr halogiad ar y safle. Caniatâd cynllunio, cyflwyno mewn camau, cytundeb A106, cyllid, achos busnes, trosglwyddo'r teitl i'w cymeradwyo. |
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Datblygiad arfaethedig gan y sector preifat ar gyfer eiddo cyflogaeth uwch wedi'i ystyried, ond nid oedd yn cwrdd â dyheadau'r bwrdd ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth. | · Cytuno â Llywodraeth Cymru ar sgôp prosiect ar gyfer cyflwyno eiddo cyflogaeth carbon isel newydd i fodloni datganiad safbwynt y bwrdd ar garbon isel. | | · Bydd cyflwyniad y sgôp gwreiddiol yn amodol ar argaeledd digon o gyllid ac ar gytuno ar fanyleb ar gyfer uned gyflogaeth carbon isel. |
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Mae achos busnes amlinellol ar gyfer adnewyddu'r morglawdd yn cael ei ddatblygu.<br>· Tîm o swyddogion i ddatblygu achos busnes i fwrw ymlaen ag opsiynau ariannu i gyflwyno'r gwaith adennill tir a diogelu'r morglawdd, gan gynnwys Stena, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a'r Swyddfa Rheoli Portffolio. | · Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer buddsoddi yn y porthladd ar gyfer adennill tir ac adnewyddu'r morglawdd.<br>· Sgopio'r opsiynau ariannu i gyflwyno'r morglawdd a'r adennill tir cysylltiedig.<br>· Y broses rhoi caniatâd ar gyfer adnewyddu'r morglawdd i fynd rhagddo. | | · Mae'r cyllid i gyflwyno sgôp y prosiect yn sylweddol.<br>· Achos busnes i gyfiawnhau'r buddsoddiad a chyflwyno deilliannau<br>· Achos masnachol cadarn yn amodol ar sawl dibyniaeth. |

Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

## Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |



| Statws RAG | Sylwadau Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Rheolwyr prosiect yn eu lle ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon, Llysfasi, y Fferm Sero Net a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth<br>• Gweithdai wedi'u cwblhau ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon ac ar y gweill ar gyfer Fferm Sero Net Llysfasi<br>• Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddrafftio ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon ac ar y gweill ar gyfer Fferm Sero Net Llysfasi<br>• Mae'r gystadleuaeth arloesedd busnes WBRID gyda Choleg Cambria Llysfasi wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer y prosiect Fferm Sero Net.<br>• Cynnydd ar fidiau arian cyfatebol i gefnogi'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru, a Chronfa Adfer Cymunedol y DU |



**Cyng Charlie McCoubrey**
Aelod Arweiniol



**Jane Richardson**
Uwch Berchennog Cyfrifol



**Robyn Lovelock**
Rheolwr Rhaglen

- (Gwyrdd) Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- (Ambr) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
- (Coch) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (ar gyfer y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg dros y Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Achos Busnes Amlinellol (OBC) yn barod ar gyfer penderfyniad gan y Bwrdd Uchelgais | · Achos Busnes Amlinellol wedi'i adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Bwrdd Cyflawni Busnes<br>· Adolygiad Porth 2 wedi'i gwblhau gyda graddiad Oren, gan bod y prosiect angen sicrhau caniatâd cynllunio.<br>· Ymrwymiad wedi'i sicrhau gan Grŵp Llandrillo Menai i fuddsoddi yn y Dadansoddiad Isadeiledd ac Ecoleg i liniaru'r risg cynllunio. | · Cwblhau'r broses gymeradwyo - Ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd o'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Gorffennaf 2021.<br>· Adnabod y 'lleoliad a'r mynediad a ffafrir' o'r gwerthusiad opsiynau.<br>· Mewn egwyddor, barn ar y lleoliad a ffafrir a'r opsiwn mynediad.<br>· Deilliannau canolraddol adroddiadau amgylcheddol parhaus | | · Datblygiad yr achos busnes yn rhedeg ar ôl yr atodlen wreiddiol. Caniatâd cynllunio i'w sicrhau. |
| **Fferm Sero Net Llysfasi**<br>Coleg Cambria | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) | · Rheolwr Prosiect wedi'i benodi a'i hyfforddi yn null Better Business Case<br>· Ymgysylltiad rhan-ddeiliaid a gweithdai achos busnes | · Cyflwyno gweithdai achos busnes<br>· Achos Busnes Amlinellol Drafft<br>· Paratoi ar gyfer adolygiad Porth 2 a'r broses gymeradwyo | | · Datblygiad yr achos busnes yn rhedeg ar ôl yr atodlen wreiddiol. Dim materion eraill. |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Cyflwyniad cydweithredol i Weinidog Llywodraeth y DU gydag arweinyddion busnes<br>· Rhagflaenydd bid Cronfa Adfywio Cymunedol y DU wedi'i gyflwyno ar gyfer Sbocsen Arloesi yn Llandudno ac adnoddau galluogi prosiect<br>· Rheolwr Prosiect wedi'i benodi | · Adolygiad yn ymwneud â COVID o'r elfen 'adain' gyda'r bwriad o ehangu partneriaid<br>· Bid Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer yr elfen Canolbwynt | | · Rôl sector preifat angen datblygiad o ystyried pwysau COVID ar y sector<br>· Nifer o fidiau perthnasol yn cael eu rheoli ar gyfer llwyddiant |



- Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

## Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel:

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwadau Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Rheolwyr prosiect yn ei le ar gyfer y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter a'r Ganolfan Biodechnoleg<br>• Gweithdai datblygu achos busnes wedi'i gwblhau ar gyfer Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Glyndŵr ac ar y gweill ar gyfer Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Bangor<br>• Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddrafftio ar gyfer Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Glyndŵr, wrth aros am adolygiadau a chymeradwyaeth<br>• Mae prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Bangor yn gweithio ar fireinio sgôp y prosiect yn unol â blaenoriaethau biotechnoleg rhanbarthol a chenedlaethol sydd ar ddyfod. |



**Cyng Dyfrig Siencyn**
Aelod Arweiniol



**Paul Bevan**
Uwch Berchennog Cyfrifol




**Robyn Lovelock**
Rheolwr Rhaglen

- (Gwyrdd) Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- (Ambr) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
- (Coch) Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (ar gyfer y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg dros y Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** Prifysgol Glyndwr | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) | · Gweithdai Achos Busnes wedi'u cwblhau<br>· Achos Busnes Amlinellol wedi'i adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio<br>· Gwaith cynllunio a pharatoadau Adolygu Porth 2 wedi'i gwblhau | · Adolygiad Porth 2<br>· Achos Busnes Amlinellol Terfynol wedi'i adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio<br>· Cwblhau'r broses gymeradwyo - Ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd o'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Medi 2021. | | · Datblygiad yr achos busnes yn rhedeg ar ôl yr atodlen wreiddiol.<br>· Cofrestr Risg wrthi'n cael ei datblygu |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol** Prifysgol Bangor | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) | · Bwrdd Prosiect yn ei le ac yn cwrdd yn rheolaidd<br>· Gweithdy 1 wedi'i gwblhau'n effeithiol<br>· Trafodaethau mewnol parhaus i leihau sgôp y prosiect yn unol â blaenoriaethau biotechnoleg rhanbarthol/cenedlaethol sydd ar ddyfod. | · Parhau i ymgysylltu â rhan-ddeiliaid<br>· Achos Amlinellol Strategol Drafft<br>· Paratoi ar gyfer adolygiad Porth 1<br>· Cyflwyno gweithdai achos busnes | | · Bwrdd prosiect wedi ymgysylltu'n weithredol a'r Rheolwr Prosiect yn gyrru datblygiad y prosiect<br>· Angen gwaith pellach er mwyn diffinio sgôp y prosiect, gan arwain at oediad bychan |



Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau rheolaethol yn eu lle)
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (camau brys eu hangen)


2021
2022
2023
2024
2025
2026
Digidol
Canolfan Prosesu Signal Digidol
Cysylltedd Cystadleuol( Ffibr Llawn)
Coridor Cysylltiedig
Campws Cysylltiedig
Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf
Ynni Carbon Isel
Morlais
Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel
Ynni Lleol Blaengar
Datgarboneiddio Trafnidiaeth
Tir ac Eiddo
Porth Caergybi
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych
Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan
Porth Y Gorllewin, Wrecsam
Warren Hall, Brychdyn
Parc Bryn Cegin, Bangor
Bwyd-amaeth a thwristiaeth
Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon
Fferm Sero Net Llysfasi
Rhwydwaith Talent Twristiaeth
Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol
Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter
Cyfnod Datblygu a Chymeradwyo Achos Busnes *
Cyfnod Caffael a Chyflawni Prosiect**
Cyfnod gweithredu a gwireddu buddion
Dyddiad cychwyn arfaethedig
* Cymeradwyo OBC cyn caffael
**Cynnwys cymeradwyo FBC yn dilyn caffael

| | | Targedau Achos Busnes y Portffolio 2020 | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u Cymeradwyo | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëir | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/ FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëir | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Swyddi a grëir | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Coridor Cysylltiedig | 25 | 0 | 2.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ffibr llawn | 20 | 120 | 7.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campws Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | 50 | 100 | 36 | OBC | 79 | 210 | 34 | +29 | +110 | - 2 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | 125 | 250 | 82 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | 215 | 310 | 15.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | **2,185** | **3,830** | **1,146** | **1 OBC** | **79** | **210** | **34** | **+29** | **+110** | **- 2** |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio
** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2012/22 £m | 2022/23 £m | 2023/34 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | Total £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | 1.72 | 0.99 | 0.25 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 2.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 1.18 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.17 |
| | Ffibr llawn | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 3.45 | 3.25 | 0.00 | 0.00 | 6.70 |
| | Campws Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 3.94 | 5.90 | 5.91 | 4.93 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | 2.46 | 4.93 | 1.48 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais | 1.97 | 3.94 | 7.88 | 7.88 | 4.93 | 11.23 |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 4.74 | 6.71 | 5.23 | 4.00 | 20.68 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 3.94 | 7.88 | 7.88 | 4.93 | 24.63 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 4.92 | 9.85 | 4.93 | 0.00 | 19.70 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 4.03 | 4.93 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.49 | 0.99 | 5.91 | 7.38 | 14.77 |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais | 0.49 | 0.99 | 5.41 | 2.96 | 0.00 | 9.85 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 0.99 | 0.98 | 0.98 | 0.00 | 3.94 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais | 0.25 | 2.7 | 2.96 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 11.331 | 13.78 | 9.36 | 0.00 | 34.47 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.49 | 4.68 | 4.68 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 4.92 | 4.68 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 1.47 | 0.00 | 4.43 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndwr | 8.28 | 1.57 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | | | | | | | | **3.60** |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **240.00** |

*Mae'r proffil ariannu fel a nodwyd yn y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2021-22 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Gweler y dudalen nesaf am wariant gwirioneddol.

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 21/22 (£m) | YTD Gwirioneddol 21/22 (£m) | Amrywiant (£m)* | Sail Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | 1.72 | 0.00 | -1.72 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo - proffil gwariant i'w ddiweddaru yn unol â'r amserlenni diwygiedig |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 0.00 | -0.99 | |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 0.00 | -0.99 | |
| | Ffibr llawn | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Campws Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | 2.46 | 0.00 | -2.46 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo - proffil gwariant i'w ddiweddaru yn unol â'r amserlenni diwygiedig |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais | 1.97 | 0.00 | -1.97 | |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo - proffil gwariant i'w ddiweddaru yn unol â'r amserlenni diwygiedig |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais | 0.49 | 0.00 | -0.49 | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 0.00 | -0.99 | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais | 0.25 | 0.00 | -0.25 | |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.49 | 0.00 | -0.49 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo - proffil gwariant i'w ddiweddaru yn unol â'r amserlenni diwygiedig |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndwr | 8.28 | 0.00 | -8.28 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo - proffil gwariant i'w ddiweddaru yn unol â'r amserlenni diwygiedig |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | | Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%) | 0.384 | 0.058 | -0.326 | Gwariant yn unol â'r gyllideb |
| | | Cyfanswm | 19.014 | 0.058 | -18.956 | Gweler uchod |

** Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD hyd at ddiwedd Mehefin 2021

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth (ffyrdd a rheilffyrdd) gan drefnu hynny ar yr un pryd â tharged Llywodraeth y DU ar gyfer darpariaeth 5G, sef 2027, neu cyn hynny. Bydd y ddarpariaeth yn cynnwys yr A55, yr A483 a'r A5. |
| | Ffibr llawn | Bwrdd Uchelgais | Bydd y prosiect hwn yn cyflawni cysylltedd ffeibr llawn (addas ar gyfer gigabit) i 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y Gogledd. |
| | Campws Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect hwn yn ceisio cyflymu datblygiad isadeiledd ar gyfer 19 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella gallu'r Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle datblygu preswyl a masnachol defnydd cymysg i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | Nod Fferm Sero Net Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndwr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |

F7 [23/07/21]



# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 20 Medi, 2021 |
| **Pwnc:** | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys H Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini<br>01248 752039<br>SionedRowe@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

**A1** Nodi:

- Y cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion o safbwynt cyflawni ei raglen waith sy'n cynnwys herio cadarn o berfformiad ysgolion unigol.
- Y meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt drwy'r trefniadau newydd yn sgil pandemig Covid 19

**A2** Argymell bod y Pwyllgor yn dod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bydd y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar hyd a lles yr Ynys. Un o 3 nod y Cynllun ydy "creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn." Mae gwaith y Panel yn allweddol i gefnogi ysgolion a'r Cyngor i wireddu'r nod hwnnw.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
| --- |

Ar gais y Panel:

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â'r gwaith a wnaed gan y Panel hyd yma?
2. I ba raddau mae'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol?
3. Pa awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor i gryfhau ymhellach ar waith y Panel?
4. Pa feysydd eraill y mae angen i'r Panel eu craffu?

| **4 – Cefndir / Cyd-destun** |
| --- |

### 1. CYD-DESTUN

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd Aelodau'n ymwybodol bod craffu wedi datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf drwy waith y 3 phanel sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.**

**Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[1] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel i'r dyfodol. Sefydlwyd proses o adrodd ar gynnydd yn chwarterol i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gan y Cyng. Gwilym Owen Jones, cadeirydd y Panel.

Erys i aelodaeth y Panel fod fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yn ystod y chwarter diwethaf[2]:

[1] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill a 27 Mehefin 2017
[2] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2019

| Cynghorydd | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Gwilym O Jones (Cadeirydd y Panel) | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Margaret M Roberts | |
| Kenneth P Hughes | |
| Vaughan Hughes | |
| | |
| Alun Roberts (Is-gadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| John Arwel Roberts | |
| Richard Griffiths | |
| **Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgorau Sgriwtini** | |
| Mr Keith Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |

2. **FFOCWS GWAITH Y PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION**

Gohiriwyd cyfarfodydd y Panel o fis Mawrth o ganlyniad i'r pandemig, a rhoddwyd rhaglen waith y Panel i'r neilltu am y tro. Penderfynwyd cyflwyno rhaglen dros dro yn ystod y pandemig gan ganolbwyntio i ddechrau ar graffu ar ymateb y Gwasanaeth Dysgu i Covid 19 a'r trefniadau a roddwyd mewn lle yn ystod yr argyfwng.  Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at 2 gyfarfod olaf y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion ac o ganlyniad mae'n cwmpasu'r cyfnod **Ebrill→ Mai, 2021.**

**Monitro Safonau Ysgolion Unigol** – Mae'r gwaith i fonitro safonau ysgolion unigol wedi ei hen sefydlu, ac yn parhau i ddatblygu. Yn dilyn trafodaeth a gafwyd ym mis Hydref, 2019 ynghylch y rhaglen ar gyfer monitro safonau mewn ysgolion unigol, gwelwyd tystiolaeth gref o weithredu ar y penderfyniad o ran datblygu'r gwaith craffu ymhellach.

Er hynny, mae'r ffrwd gwaith hon wedi cael ei rhoi i'r neilltu ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig, ac mae'r Panel yn awyddus i ailddechrau'r ymweliadau hyn pan fydd yr amodau yn caniatáu.

3. **Diweddariad ar y Gymraeg yn y System Addysg ym Môn**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan yr Uwch Reolwr Cynradd ar y Gymraeg yn y System Addysg ym Môn, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol. Cyfeiriwyd at y 10 Cydlynydd Dalchgylch (5x Cydlynydd Cynradd a 5x Cydlynydd Uwchradd). Nodwyd bod y Cydlynwyr yn gyfrifol am arwain cynlluniau clwstwr a chefnogi'r dalgylch, ac yn cyfrannu at gyfarfodydd yr Awdurdod, sy'n cynnwys GwE a swyddogion Siarter Iaith. Lluniwyd cynlluniau clwstwr ym mis Rhagfyr 2020, a bu i Lywodraeth Cym ru ddosbarthu £7,000 i bob clwstwr ar gyfer cyfnod Ionawr- Gorffennaf 2021.

Nodwyd mai cyfrifoldeb y Cydlynwyr Dalgylch yw llunio cynllun ar gyfer y rhanbarth, a lledaenu arbenigedd ar draws y rhanbarth ehangach, gan fonitro'r sefyllfa o ran y Gymraeg. Nodwyd bod cydweithio agos rhwng Swyddogion GwE a Swyddogion Siarter Iaith. Cyfeiriwyd at y cynlluniau a'r strwythurau rhanbarthol sy'n cefnogi'r Gymraeg sef Gweithgor Rhanbarthol, Cynllun Carlam y Gymraeg, Prosiect Peilot Siarter Iaith a Microsite Caru Iaith.

Cyfeiriwyd at y gwaith peilot mewn 4 ysgol sy'n canolbwyntio ar adfer iaith drwy gynllun unigryw mewn cydweithrediad rhwng y Gwasanaeth Dysgu, ysgolion a'r swyddog Siarter Iaith. Mae'r cynllun ar gael ar lein bellach i holl ysgolion Môn. Mae'r ysgolion yn derbyn

adnoddau priodol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth adfer iaith lafar. Mae'n fwriad i'r pedair ysgol rannu eu profiadau a chynlluniau drwy hyfforddi athrawon eraill ar yr Ynys er mwyn canolbwyntio ar adfer iaith ar y buarth ac yn ehangach ar draws yr holl ysgolion.

Dysgwyd am sut bu i'r Gwasanaeth Dysgu gyfrannu at broffil iaith Ynys Môn, ac y cymerwyd rhan mewn ymgynghoriad o gategoreiddio ysgolion.

Cyfeiriwyd at y ddwy ganolfan iaith ar yr Ynys. Nodwyd bod y canolfannau bellach wedi gallu croesawu plant yn ôl wyneb yn wyneb, gyda gwersi rhithiol yn parhau hefyd ar Google Classroom. Cyfeiriwyd at y rhestr aros ar gyfer mynychu'r Canolfannau a nodwyd bod yr unigolion hyn yn cael mynediad at y gwersi a'r ddarpariaeth ar Google Classroom, ac mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw gorffen y garfan bresennol o ddisgyblion, a chroesawu carfan newydd ym mis Mai 2021.

### 3.1 <u>Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)</u>

Cyfeiriwyd at y ffaith ei bod yn ofynnol i'r CSGA fod yn gynllun 10 mlynedd bellach yn hytrach na thair blynedd. Amlinellwyd 7 deilliant y cynllun sef:

1. Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg
3. Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
6. Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Mynegodd y Panel bryderon o ran yr her o recriwtio athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai pynciau, ond amlinellwyd y cynlluniau sy'n eu lle o gydweithio ar gynllun sabothol gyda Chanolfan Bedwyr i ddatblygu sgiliau Cymraeg athrawon. Cyfeiriwyd at gynllun E-sgol hefyd, sy'n sicrhau bod darpariaeth bynciol drwy'r Gymraeg ar gael drwy ddarpariaeth ar-lein mewn ardaloedd ble nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd un o'r Aelodau at brinder athrawon Cymraeg mewn rhai pynciau yn yr Uwchradd gan gyfeirio at ddiffyg dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd a bod angen mynd i'r afael â hyn.

### 4.0 Hunan werthusiad o waith y Panel

4.1 Cynhaliwyd ymarfer hunan werthuso gydag Aelodau'r Panel, ac adnabuwyd nifer o bwyntiau allweddol fydd o gymorth i ddatblygu cyfraniad y Panel ymhellach. Nodwyd bod y Panel yn cael effaith bositif iawn, a chyfeiriwyd at arbenigedd y mae'r Panel wedi'i ddatblygu. Teimlwyd bod y Panel yn dal ysgolion i gyfrif ac yn herio mewn modd adeiladol. Er hynny o ran cyfrifoldeb y Panel i herio ac i ddal i gyfrif, er mai cynorthwyo ysgolion i barhau i ddatblygu a gwella'n barhaus yw'r prif nod, mae cyfrifoldeb i dynnu sylw at wendidau a meysydd i'w datblygu.

4.2 O ran cryfderau'r Panel, teimlwyd bod y Panel yn cael gwir ddarlun o sefyllfaoedd ysgolion unigol yn ddiweddar yn hytrach na chlywed am yr agweddau positif yn unig. Ymhellach, mae'r ffaith bod y Panel yn bodoli yn profi bod atebolrwydd a strwythur clir o

ran adrodd, gyda'r Panel yn cael cyfle i herio a gofyn cyfres o gwestiynau. Mae'r Panel wedi darbwyllo Penaethiaid mai ffrindiau beirniadol ydynt.

4.3 O ran y meysydd i'w datblygu ymhellach, teimlwyd nad oes dilyn i fyny digonol yn digwydd wedi i Aelodau'r Panel ymweld ag ysgolion unigol. Byddai'n syniad trefnu ymweliad dilynol oddeutu chwe mis yn dilyn yr ymweliad gwreiddiol er mwyn gweld a oes unrhyw ddatblygiadau neu welliannau wedi'u rhoi ar waith. Nodwyd y gellir rhannu arbenigedd y Panel ag Aelodau Etholedig nad ydynt yn aelodau o'r Panel.

4.4 Holwyd y Panel beth sydd wedi gweithio'n dda a beth ellir ei ddatblygu ymhellach o ganlyniad i'r pandemig, a nodwyd bod manteision o gyfarfod yn rhithiol o ran defnydd gwell o amser Aelodau a Swyddogion, sy'n hwyluso'r broses i swyddogion allanol megis GwE a Phenaethiaid Ysgolion allu ymuno o bell heb orfod teithio. Felly, yn gryno, nodwyd bod y cyfrwng rhithiol yn rhywbeth sydd angen ei ddatblygu ymhellach, a manteisio ar fodel hybrid.

**5.0 Y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**
Cafwyd adroddiad ar lafar gan yr Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn canolbwyntio ar goblygiadau y ddeddf yn lleol, gyda mewnbwn gan ddau Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol o ddwy ysgol gynradd.

5.1 Dysgwyd sut bu i'r cod terfynol gael ei dderbyn ddiwedd Mawrth 2021, gyda'r Gwasanaeth wedi edrych ar beth sydd angen ei weithredu ar unwaith. Amlinellwyd y gwaith ymgysylltu eang sydd wedi'i gynnal ag ysgolion a Llywodraethwyr gyda chyflwyniadau wedi'u darparu ar gynnwys y Cod newydd a'r gofynion cyfreithiol. Clywyd am y gwaith paratoi sydd wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd, gyda'r Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUs) yn cael eu cynhyrchu ers 2013, a bod gan yr awdurdod fantais yn hynny o beth o'i gymharu â rhai awdurdodau eraill sy'n arbrofi â'r rhain am y tro cyntaf. Amlinellwyd y prif newidiadau o ran bod yr oedran wedi ymestyn o 0-25 oed bellach, a bod cyfnod o 7 wythnos er mwyn penderfynu a oes gan unigolyn Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n ddipyn cynt na'r gofynion yn y ddeddf flaenorol. Bydd angen i staff yr awdurdod gefnogi'r ysgol o ran unrhyw achosion tribiwnlys.

5.2 Amlinellwyd gofynion deddfwriaeth y cod, a chafwyd trosolwg cynhwysfawr o'r rhain:

i. dyletswydd i ffafrio addysg prif-lif a hawl i unigolion aros yn lleol i gael ei addysg.
ii. dyletswydd i ddarparu cymorth yn ddwyieithog, sydd eisoes yn digwydd yn lleol, ond fydd yn profi'n heriol i rai awdurdodau eraill.

5.3 Mae cyfnod trosi o dair blynedd, ac felly meysydd ble y bydd cyfnod o oedi cyn bod angen gweithredu'r gofynion deddfwriaethol. Bydd oedi yn y cyfnod ôl-16, gan fod angen trafodaethau pellach o ran cyllido'r agwedd hon. Bydd y gofynion o ran y blynyddoedd cynnar yn dod yn fwy graddol. Amlygwyd y ffaith mai'r cyfnod oed ysgol sy'n cael y fwyaf o sylw yn ystod y flwyddyn gyntaf o'r cyfnod trosi.

5.4 Cyfeiriwyd at y gwaith arloesol o ran bod gan y Cyngor system CDU, gyda phob ysgol ar yr Ynys â mynediad at y system, sy'n golygu bod y data yn fyw ac yn gyfredol. Nodwyd mai Môn a Gwynedd yw'r unig ddwy sir yng Nghymru sydd â system o'r fath, ac felly yn arwain y gad yn hynny o beth. Nodwyd bod gwaith eirioli yn y dalgylchoedd yn cael ei ddisgrifio'n arloesol, gydag eirolwyr yn cydweithio ar draws yr Ynys sydd wedi arwain at gysondeb ar draws y sir.

**<u>5.5 Datblygiadau</u>**
Dysgwyd sut mae Swyddog Trawsnewid Rhanbarthol sy'n gyflogedig gan Lywodraeth Cymru wedi'i benodi. Cyfeiriwyd at y gwaith cydweithio positif sy'n bodoli gyda'r Bwrdd

Iechyd, ac yn benodol at y Swyddog Clinigol Arweiniol Dynodedig Addysg (BIPBC) sy'n ei rôl ers dechrau Ionawr 2021. Mae arweinydd ADY wedi'i benodi o fewn pob adran yn yr ysbytai o ran gwasanaethau plant. Mae gwaith cydweithio positif iawn gyda'r Bwrdd Iechyd lleol.

**5.6 Heriau**

Cyfeiriwyd at yr heriau sy'n bodoli o ran gweithredu'r Ddeddf newydd, a chafwyd trosolwg cynhwysfawr ohonynt:

i. sgôp y Ddeddf yn llawer ehangach bellach, yn enwedig o ran y cyfnod cyn ysgol ac Ôl-16.
ii. Gofyn ymgynghori â Seicolegwyr Addysg o ran bob Cynllun Datblygu Unigol
iii. Angen hyfforddi staff arbenigol a'i bod yn ofynnol ymgynghori â Seicolegwyr Addysg o ran bob Cynllun Datblygu Unigol.
iv. Nodwyd bod angen rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i hyfforddi fel seicolegwyr Cymraeg yn y Gogledd.
v. Nodwyd bod yr awdurdod wedi anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i fynegi pryderon nad oes Seicolegwyr Cymraeg o'r Gogledd yn hyfforddi ar hyn o bryd fydd yn arwain at ddiffyg staff yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn bryder gan fod angen ymgynghori â Seicolegydd gyda phob Cynllun Datblygu Unigol, a bod rôl Seicolegydd Addysg yn swydd statudol.

**5.7 Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

Cafwyd mewnbwn gan ddau Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Cydlynwyr yn gyfrifol am y systemau ADY a Chynhwysiad yn yr ysgolion.
- Mae'r Cydlynwyr Dalgylch wedi bod yn adnabod blaenoriaethau'r cod newydd. Crëwyd model rhesymeg i adnabod yr angen a sut i fynd ati i weithio tuag at y meini prawf, ac fe'i ranwyd â phob ysgol er mwyn iddynt eu bwydo i'r cynlluniau datblygu ysgol.
- Yn ystod yr ail flwyddyn, bwriedir paratoi teithiau dysgu, fel bod pob ysgol yn cyrraedd yr un pwynt ar yr un pryd.
- Cynhaliwyd hunan arfarniad cyson yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn rhannu arferion da rhwng ysgolion ac i gefnogi ei gilydd.
- Nodwyd bod y gwaith o gydweithio rhwng dalgylchoedd yn unigryw, ac nad yw'r gwaith hwn i'w weld mewn siroedd eraill.
- Nodwyd bod pwysau ar athrawon sy'n ymgymryd â rôl Cydlynwyr ac Arweinwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, a'u bod yn aml yn gorfod cael eu rhyddhau o'r dosbarth a gweithio y tu hwnt i'w horiau er mwyn cynnal y gwasanaeth.

5.8 Rhoddwyd sicrwydd i'r Panel bod y Gwasanaeth Dysgu yn cynllunio'n briodol er mwyn cyfarch gofynion y ddeddfwriaeth yn llawn. Bydd y Panel yn derbyn diweddariadau rheolaidd er mwyn monitro cynnydd yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**6. MATER I'W UWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EI YSTYRIED**

Cyfeirir y mater a ganlyn er ystyriaeth gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:
6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ddod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng. Gwilym Owen Jones**
**Cadeirydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion**
**Dyddiad: 23/07/2021**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **20 Medi, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2020

| | |
|---|---|
| | lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Mawrth, 2022**
**[Fersiwn ddyddiedig 08/09/21]**



## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)-2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (14/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21)** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 | Craffu ar Bartneriaethau |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 | Diogelu Corfforaethol |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 (2021-22) Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Strategaeth Iaith: 2021/26 - adolygiad |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Her Tai Ymateb CSYM i'r sefyllfa Tai Lleol | |
| Strategaeth Dai Lleol 2022/27 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Ionawr, 2022 (20/01/22)** | **Ionawr, 2022 (18/01/22)** |
| | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Chwefror, 2022 (09/02/22)** | **Chwefror, 2022 (08/02/22)** |
| | Cynllun Datblygu Lleol: adolygiad **(neu 08/03/22)** |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Mawrth, 2022 (07/03/22)** | **Mawrth, 2022 (08/03/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2021/22 | Cynllun Datblygu Lleol: adolygiad **(neu 08/02/22)** |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai (07/03/2022) | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion | Cynlluniau Adfer (Covid-19) |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23 | Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23 | |
| Cynlluniau Adfer (Covid-19) | |
| | |

This page is intentionally left blank